# Gwasanaeth Bws Fflecsi

Mae bellach yn 3 mis ers cafodd gwasanaeth Fflecsi ei ymestyn i wasanaethu Dolwyddelan fel ein hunig wasanaeth bws cyhoeddus. Mae ar brawf tan ddiwedd Rhagfyr eleni, a bryd hynny caiff y niferoedd eu hadolygu er mwyn penderfynu a fyddai'r gwasanaeth yn parhau ai pheidio.
Mae Fflecsi yn wasanaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n golygu bod gofyn ichi drefnu eich taith ymlaen llaw, yn ogystal â'ch taith dychwelyd os oes angen.
Mae'r gwasanaeth ar gael o 06.30yb tan 7.00yh, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dim ond dau fws Fflecsi sy'n gwasanaethu ardal eang o Ddyffryn Conwy, sy'n ymestyn cyn belled â Cherrigydrudion a Llangernyw, felly nid yw'n bosibl trefnu taith ar eich amser dewisol pob amser. Gorau po gyntaf y byddwch yn trefnu eich taith er mwyn sicrhau y cewch chi fws ar ddiwrnod ac amser sy'n gweddu ichi. Caiff teithiau eu trefnu ar sail y cyntaf i'r felin.
Gallwch drefnu taith drwy ffonio'r ganolfan alw 0300 234 0300 (7.00yb-7.00yh Llun-Sad / 9.00yb-6.00yh ar ddydd Sul) neu drwy lawr lwytho'r rhaglen ffôn.
Dyma ychydig o awgrymiadau ichi pan fyddwch chi'n trefnu'ch taith . . .

- Pan fyddwch chi'n trefnu apwyntiad gyda'ch Meddyg neu driniwr gwallt, cofiwch drefnu'ch bws hefyd.
- Os ydych chi'n teithio i'r gwaith ar y bws Fflecsi, ewch ati i drefnu eich teithiau wythnos ymlaen llaw neu hyd yn oed mis ymlaen llaw os ydych chi'n ymwybodol o'ch amserlen / rota gwaith.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i gludo teithwyr o'r Bont Rufeinig ond rwy'n dal yn aros am y dyddiad cychwyn.
Rwyf wrthi'n trefnu sesiwn wybodaeth Fflecsi yn y Pafiliwn, lle bydd cymorth ar gael i'ch helpu i gynllunio a threfnu teithiau. Unwaith y byddaf wedi trefnu'r dyddiad, fe wna i ei hyrwyddo ar Facebook ac ar bosteri o amgylch y pentref.

Cllr. Liz Roberts




## Crefftau ac Anrhegion Baabarella



Baabarella.co.uk
Sales@baabarella.co.uk
Facebook: Baabarella



Anrhegion wedi'u dewis a'u dethol yn ofalus gydag ambell i eitem wedi'u huwchgylchu, a sawl un wedi'i wneud â llaw, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwlân o ddefaid y fferm deuluol yn ardal odidog Eryri.